| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR : | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD : | 25 MEDI 2012 |
| TEITL YR ADRODDIAD : | ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL<br>01 EBRILL 2012 – 14 MEDI 2012 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN : | RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON |
| GWEITHREDU: | Penderfyniadau / Cymeradwyaeth fel y nodwyd yn yr adroddiad |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2011-12 yn y Pwyllgor Archwilio a gafwyd ar 24 Mai 2012. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 14 Medi 2012 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol y rhoddwyd iddynt farn 'Sicrwydd Coch' ynghyd â Chrynodebau Gweithredol o'r adroddiadau.

**1.3** Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', cynhelir Adolygiad Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw, nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o ran gweithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r Adroddiad Terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Cafwyd un adolygiad yn ystod y cyfnod a arweiniodd ar farn 'Sicrwydd Coch'. Mae'r Crynodeb Gweithredol ar gyfer yr adroddiad hwn ynghlwm fel Atodiad B i'r adroddiad hwn.

**1.5** Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaethau Allweddol, Adolygiadau Sefydliad neu Adolygiadau Ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

**1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

## 2. YR ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD HYD YMA A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

2.1 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy’n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â’r farn archwilio gyffredinol.

**Tabl 1**

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| *Adolygiadau sy’n seiliedig ar risg/ Adolygiadau System* | | | | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Pryd ar Glud | Uned Ddarparu | 2012/13 | TERFYNOL | COH/AMBR |
| Brecwast am Ddim LlC | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Cytundebau Canlyniadau – Eiddo | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ffioedd Allsirol | Gwas Cym | 2011/12 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Parhad Busnes | TGCh/ Cynllunio | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Diogelwch DataOriel | TGCH/ Cyfreithiol | 2012/13 | DRAFFT | |
| Dilyn i Fyny – Argymhellion Ysgolion | Addysg | 2012/13 | DRAFFT | |
| Oriel | Hamdden | 2012/13 | DRAFFT | |
| Rheoli Cofnodiadau Modern | Dysgu Gydol Oes | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Pwrcasu UCB | Tai | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Lwfansau Aelodau | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Taliadau Uniongyrchol – Gwas Cym | Gwas Cym | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Targedau Carbon ac Effeithlonrwydd Ynni | Eiddo | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Arforol – Incwm | Priffyrdd | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Menter Genedlaethol – Twyll | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Risg – Gweithredu | Corfforaethol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Ysgolion*** | | | | |
| Ysgol Y Bont | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/ AMBR |
| Ysgol Bodffordd | Addysg | 2012/13 | DRAFFT | |
| Ysgol Rhosybol | Addysg | 2012/13 | DRAFFT | |
| ***Cyfeiriadau*** | | | | |
| Adroddiad 6 12-13 | Dysgu Gydol Oes | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad 7 12-13 | Gwas Cym | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad 8 12-13 | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad 9 12-13 | Addysg | 2012/13 | INTERIM | |

## **2.2** Casgliadau Allweddol o'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd

**Unedau Diwydiannol –** Cynhaliwyd archwiliad o Renti Unedau Diwydiannol fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2011/12. Cyfanswm y debyd ar gyfer rhenti diwydiannol petai'r holl eiddo'n cael eu defnyddio fyddai £400k. Roedd 79 o Unedau Diwydiannol yn cael eu defnyddio yn 2011-12 gan gynhyrchu incwm o £275.8k yn erbyn incwm yn 2010-11 0 £235.3k. Mae'r Uned Datblygu Economaidd yn bwriadu cydweithio gyda'r Gwasanaethau Eiddo i sicrhau bod >90% o'r Unedau Busnes sydd ym mhortffolio unedau diwydiannol y Cyngor yn cael eu defnyddio.

Canfu'r adolygiad bod cyfathrebu rhwng yr amryfal wasanaethau wedi lleihau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a hon yn wir oedd y ffactor bwysicaf yn y rhan fwyaf o'r materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad.

Prif ganfyddiadau'r adolygiad oedd:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Nid yw'r cyfarfodydd rhwng y Gwasanaethau Eiddo a'r Adain Incwm a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd wedi cael eu cynnal am y tair blynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o'r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â diffyg cyfathrebu rhwng y Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r mater.
- Canfuwyd bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth a'r cofnod o weithdrefnau gosod yn hen ac angen eu hadolygu i adlewyrchu arferion cyfredol a swyddi'r staff perthnasol.
- Nid oedd y rhestr ddyledwyr ar gyfer rhenti diwydiannol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i nodi dyledion nad oes modd, fe dybir, eu hadennill. O'r naw ddyled, canfuwyd bod 6 ohonynt yn ymwneud â dyledion rhwng 2005 a 2007.

**Gweithredu'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Ni chafodd anfonebau ar gyfer premiymau yswiriant ar gyfer 2010/11 a 2011/12 eu codi a'u hanfon at y tenantiaid.

Arweiniodd yr adolygiad at wneud dau argymhelliad categori canolog a chwech argymhelliad categori uchel a barn archwilio gyffredinol GWYRDD/AMBR.

**Pryd ar Glud** - Cynhaliwyd archwiliad o'r Gwasanaeth Pryd ar Glud fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.

Darperir y gwasanaeth Pryd ar Glud gan yr Uned Ddarparu ar gais y Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff yr incwm ar gyfer Pryd ar Glud ei gasglu a'i dalu i mewn i gyfrif y Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff y costau eu cyfrifo yn seiliedig ar nifer y prydau a ddarparwyd a'u had-dalu i'r Uned Ddarparu.

Roedd yr incwm rhagdybiedig ar gyfer Pryd ar Glud yn 2011/12 yn £223 830 a'r gwariant rhagdybiedig yn £249 690. Mae gwariant yn cynnwys ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched a'r Tile Centre ynghyd â chost y prydau a ddarparwyd.

Nid yw Pryd ar Glud yn ofyniad statudol ac mae'r Adain Archwilio yn deall bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n adolygu'r gwasanaeth Pryd ar Glud fel rhan o'r rhaglen i ailfodelu'r Gwasanaeth.

Dyma oedd prif ganfyddiadau'r adolygiad:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Canfuwyd nifer o wendidau sylweddol yn bennaf mewn perthynas â'r diffyg systemau rheoli. Awgrymwyd y dylid gweithredu trefniadau ffurfiol gan fanylu ar ofynion penodol ar gyfer gweinyddu'r gwasanaeth Pryd ar Glud.

- Nid oes trefniadau sy'n golygu bod Cydlynwyr yn siecio'n rheolaidd y cofrestrau Pryd ar Glud o ran clandriadau rhifyddeg a sicrhau bod cyfanswm yr incwm a delir yn cyd-fynd â chyfanswm yr incwm gafodd ei fancio a'r derbynebion a gafwyd. Mewn rhai achosion, nid oedd derbynebion ynghlwm wrth y cofrestrau perthnasol gan eu gwneud yn fwy anodd i sicrhau bod yr holl incwm wedi cael ei gasglu a'i fancio'n brydlon. Mae hyn yn ychwanegu at y risg bod prydau'n cael eu darparu ond bod neb yn talu amdanynt neu nad yw'r incwm a gesglir yn cael ei fancio.

- Nid oes trefn ar gyfer cysoni'n rheolaidd y prydau a gynhyrchir, a ddanfonir ac a delir amdanynt. Mae hyn yn ychwanegu at y risg bod prydau'n cael eu darparu ond bod neb yn talu amdanynt neu nad yw'r incwm a gesglir yn cael ei fancio.

**Gweithredu'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Er bod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gytundebau yn eu lle gyda gwasanaethau trydydd parti megis Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched sy'n cynnwys gofynion ar gyfer gwiriadau SCT ac adnewyddu'r gwiriadau hynny, eglurwyd i'r Adain Archwilio nad oedd unrhyw wiriadau wedi eu cynnal i sicrhau y cydymffurfiwyd gyda'r gofynion uchod.

- Canfuwyd nad oedd y cofrestrau bob amser yn gyflawn ac yn gywir o ran y clandriadau rhifyddeg a ddangoswyd gan gynnwys y cyfansymiau a dalwyd yn cytuno gyda chyfanswm yr incwm gafodd ei fancio a derbynebion a gafwyd a throsglwyddo ffigyrau rhwng wythnosau.

- Nid oedd y gyllideb yn cael ei monitro'n rheolaidd ar gyfer incwm a gwariant ar Bryd ar Glud ac roedd £56k o orwariant ar eu danfon a £40k o danwariant ar brydau ac ymddengys mai dyma oedd yr achos yn y flwyddyn flaenorol.

Arweiniodd yr adolygiad at saith o argymhellion categori Canolig a dau o rai categori Isel yn cael eu gwneud a barn archwilio gyffredinol a oedd yn GOCH / AMBR.

**Brecwast Am Ddim LlC** – Cynhaliwyd archwiliad o Fenter Brecwast Am Ddim LlC fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Grant Menter Brecwast Am Ddim i Ysgolion Cynradd i ddarparu ar gyfer plant o oed ysgol cynradd y cyfle i dderbyn brecwast iach yn rhad ac am ddim. Ar hyn o bryd, mae 47 o ysgolion Môn yn rhan o'r cynllun. Yn ystod 2011/12, hawliwyd grant oddeutu £375k.

Mae'n un o'r gofynion dan delerau ac amodau'r grant bod awdurdodau, lle mae'r cyllid am y flwyddyn dros £100,000, yn adolygu'r cynllun yn unol â'i drefniadau Archwilio Mewnol. Mae'r adolygiad hwn yn cefnogi Ardystiad yr Archwiliwr sydd i'w gwblhau ar gyfer cyfnod y grant (2011/12) ac a gyflwynwyd i LlC erbyn 29 Gorffennaf 2012.

Canfu'r adolygiad bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda thelerau ac amodau'r fenter a chafwyd barn sicrwydd gyffredinol a oedd yn WYRDD.

**Cytundebau Canlyniadau – Eiddo** – Cynhaliwyd archwiliad o DP y Cytundeb Canlyniadau – Eiddo fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cofnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.

Mae Cytundebau Canlyniadau yn bodoli rhwng pob awdurdod lleol unigol a Llywodraeth Cymru a byddant yn parhau am dair blynedd gan ddod i ben ym Mawrth 2013. Mae Cytundebau Canlyniadau yn cynnwys deg o themâu strategol cyffredinol a gymerwyd yn wreiddiol o'r ddogfen Un Gymru ac sydd yn adlewyrchu amcanion gwella presennol yr Awdurdod neu rhai a nodwyd.

Mae Cytundebau Canlyniadau yn anelu at:

- Ddatblygu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o reoli perfformiad yn lleol a chenedlaethol sydd wedi alinio'n glir gyda blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ond sy'n cadw ffocws lleol.

- Gosod fframwaith atebolrwydd mwy effeithiol drwy roddi anogaeth i wella a darparu canlyniadau lleol o safon.

- Mireinio a chryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol gan leihau'r gorbenion gweinyddol a hwyluso darparu arbedion effeithlonrwydd.

Mae Cytundebau Canlyniadau yn gysylltiedig â grant pro-rata a delir i'r Awdurdod gan ddibynnu ar y lefel y mae wedi cyflawni'r canlyniadau yn ei Gytundeb.

Dyma oedd prif ganfyddiadau'r adolygiad:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Mae peth ansicrwydd ynghylch sut y daethpwyd at y targed ar gyfer OA10Bpi02 ar gyfer 2011/12 a sut y gellir ei gyflawni.  Y canlyniad ar gyfer 2011/12 oedd na fydd modd cwrdd â'r targed DP fel y cafodd ei bennu.

**Gweithredu'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Yn ystod yr adolygiad, ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol yn y modd y gweithredir rheoliadau.

Arweiniodd yr adolygiad at wneud un argymhelliad categori Canolog ac un categori Isel a barn sicrwydd gyffredinol GWYRDD.

**Ffioedd Allsirol** - Gofynnodd y Swyddog 151 Dros Dro am adolygiad o'r trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb ar gyfer ffioedd allsirol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.  Y rheswm am y cais oedd bod adroddiadau monitro cyllideb Chwarter 3 ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dangos bod gorwariant ar y gyllideb hon oherwydd cynydd yn nifer y lleoliadau i Blant.

Canfu'r adolygiad bod y Gwasanaethau Cyllid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymryd camau i adolygu'r rhesymau am y gorwariant a bod camau'n cael eu cymryd i osgoi hyn rhag digwydd eto.

Roedd yr adolygiad yn un ymgynghorol ac nid oedd barn gyffredinol yn berthnasol.

**Parhad Busnes** – Cynhaliwyd archwiliad o Barhad Busnes fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13.  Amcan cynllun Parhad Busnes yw gwrthsefyll unrhyw doriadau i weithgareddau busnes a gwarchod prosesau busnes hollbwysig rhag effaith methiant arwyddocaol yn y systemau gwybodaeth neu drychineb a sicrhau eu bod yn cael eu hadfer yn brydlon.

Arweiniodd yr adolygiad at farn archwilio COCH cyffredinol ac mae'r crynodeb gweithredol llawn ar gyfer yr adroddiad hwn wedi ei gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

**Archwiliadau Ysgolion** - Amcan adolygiad ysgolion yw rhoddi sicrwydd ar weithrediad, effeithlonrwydd a digonolrwydd rheoliadau mewnol allweddol ynghylch systemau incwm a gwariant, rheolaeth ariannol a chyllidebol a threfniadau llywodraethu o fewn yr ysgol.  Cafodd yr adolygiadau ysgolion canlynol eu cwblhau i bwynt adroddiad terfynol yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o:

Penododd **Ysgol y Bont** Bennaeth newydd ym mis Medi 2011.  Ysgol arbennig yw Ysgol y Bont gyda chyllideb ar gyfer 81 o ddisgyblion yn 2011/12.  Roedd prif ganfyddiadau'r adolygiad yn ymwneud a'r gwendidau isod a nodwyd o ran rheolaeth fewnol:

- Roedd yr ysgol yn cydymffurfio gyda Rheoliadau Ariannol mewn perthynas ag archebu am nwyddau a gwasanaethau a thalu amdanynt; mewn prawf sampl fodd bynnag canfuwyd rhai eithriadau lle nad oedd archeb swyddogol wedi cael ei darparu cyn prynu ac o'r herwydd nid oedd system gyfrifeg ymrwymiadau'r ysgol wedi cael ei diweddaru i

gofnodi'r gwariant yr ymrwymwyd iddo. Ym mhob achos, canfuwyd yn y profion bod yr holl wariant wedi cael ei awdurdodi'n gywir a'i gyfrifo'n gywir amdano.

- Nid oedd gan yr ysgol bolisi rhannu pryderon ac mae angen ymestyn y polisi ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd i gynnwys defnydd gan staff ynghyd â disgyblion.
- Nid oedd gan yr ysgol gofrestr gyflawn o ddiddordebau busnes y Pennaeth, y Llywodraethwyr a'u teulu agos yn unol â gofynion y Cynllun Ariannu Teg. Nid oedd unrhyw drefniadau yn eu lle i adolygu'r gofrestr yn flynyddol.
- Ar adeg yr adolygiad archwilio, roedd yr ysgol wrthi'n gweithredu polisïau'r Cyngor o ran y Fflyd Gerbydau a Rheoli Gyrwyr.

Arweiniodd yr adolygiad at farn sicrwydd archwilio GWYRDD / AMBR.

**2.3 Crynodeb o Ganlyniadau'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma** – Ers 1 Ebrill 2012, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio mewnol 2011-12; deg o gynllun 2012-13 ac wyth o adroddiadau ymchwilio. Hyd yma, mae cyfanswm o ugain o adroddiadau Terfynol wedi cael eu cyhoeddi yn 2012/13.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAG | Beth yw ystyr y raddfa newydd | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf | Ebrill 2010 hyd at Ebrill 2011 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 2 | 2 |
| Gwyrdd Oren (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 2 | 3 |
| Coch Oren (Graddfa D) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 1 | 1 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 1 | 1 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 4 | 13 |
| | Cyfanswm | **10** | **20** |

## 3. PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU AM Y CYFNOD 01/04/12 – 14/09/12

**3.1** Mae’r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2012/13. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i’r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed | Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|
| % o’r cynllun archwilio 2011/12 a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (63 o adolygiadau yn y cynllun – 3 adroddiad drafft yn y cyfnod a 5 adroddiad terfynol – ac eithrio ymchwiliadau). | 90% | 62% | ☹ | ⬅➡ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ | ⬅➡ |
| % o’r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd o 01/04/10 | 80% | 85% | ☺ | ⬆ |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 8 | 2 | 😐 | ⬅➡ |
| Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 1 | 😐 | ⬅➡ |

**3.2** Mae canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd, sef 62% is na’r targed o 90%. Mae hyn i’w briodoli’n rhannol i’r 8 adolygiad ymchwiliadau sydd wedi cael eu cwblhau a’u hadrodd arnynt yn ystod y cyfnod – mae hyn wedi tynnu adnoddau o’r gwaith Archwilio Mewnol rhaglenedig. Mae ymchwiliad sy’n mynd rhagddo wedi cymryd llawer o amser Archwiliwr Amser Llawn Cyfatebol yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn hon.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cymerwyd gwyliau blynyddol ar lefel anghymesur yn ystod misoedd yr haf.

**3.3** Mae’r ganran o argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig a weithredwyd, sef 85%, yn uwch na’r targed. Mae hyn yn welliant ar gyfradd gweithredu ar argymhellion a adroddwyd yn flaneorol. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i anfon nodiadau atgoffa i ddiweddaru er mwyn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu ar argymhellion yn cael eu cofnodi ar y system.

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni

chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae wyth adroddiad mewn perthynas â chyfeiriadau wedi cael eu cyhoeddi hyd yma yn 2012/13. Adroddwyd ar dri o'r rhain yn y cyfnod y sonnir amdano yn yr adroddiad hwn (Adroddiadau Cyfeirio 6, 7 a 8).

**4.3** Roedd Adroddiad 6 yn ymwneud ag achos o fancio incwm yn hwyr gan arwain at ymddiswyddiad yr aelod o staff dan sylw. Roedd Adroddiad 7 yn ymwneud â chasglu arian ac mae'n destun achos gan yr Adran Adnoddau Dynol sy'n parhau i fynd ymlaen. Mae Adroddiad 8 yn ymwneud â chyfeiriad allanol ynghylch aelod o staff nad oedd sail iddo.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION


**5.1** Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion wnaed ers 01-04-10 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.

**5.2** Mae perfformiad gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn uwch na'r targed gyda 85% o argymhellion Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt. Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

**RHEOLWR ARCHWILIO**
**25 Medi 2012**

**Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2010** **ATODIAD A**

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion a weithredwyd / na weithredwyd ar gyfer argymhellion categori Uchel a Chanolig fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion.




Yn ein barn ni felly, yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tablau Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd da'** yn ystod y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categorïau Uchel a Chanolig. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio'r rheiny sydd heb gyrraedd eto y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) y mae eu statws hunanasesu yn 'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef **85%** o'r holl argymhellion o'r fath ar ddiwedd y cyfnod.

**Adroddiadau Sicrwydd Coch**

## Parhad Busnes - Cyfeirnod:  1812.12/13

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

### 1.1 RHAGARWEINIAD

Cynhaliwyd archwiliad o Barhad Busnes fel rhan o gynllun cyfnodol yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13.

Amcan cynllun Parhad Busnes yw gwrthweithio amhariadau ar weithgareddau busnes a diogelu prosesau busnes hanfodol rhag effaith methiannau mawr mewn systemau gwybodaeth neu effeithiau trychinebau a sicrhau y gellir ailafael yn y gweithgareddau hynny'n brydlon.

Dylid gweithredu proses rheoli parhad busnes i gyfyngu'r effaith ar y sefydliad i'r eithaf ac er mwyn sicrhau adferiad yr awdurdod ar ôl colli asedau gwybodaeth (a allai ddigwydd, er enghraifft, yn sgil trychineb naturiol, damweiniau, methiannau mewn offer a gweithredoedd bwriadol) i lefel dderbyniol trwy gyfuniad o fesurau ataliol ac adfer.  Dylai'r broses nodi'r prosesau busnes hanfodol ac integreiddio rheolaeth diogelwch gwybodaeth ar gyfer parhad busnes gyda gofynion parhad eraill mewn perthynas ag agweddau fel gweithrediadau, staffio, deunyddiau, cludiant a chyfleusterau.


Dylid cynnal dadansoddiad o'r effaith ar y busnes yn sgil trychinebau, methiannau diogelwch a cholli gwasanaethau.  Dylid datblygu a gweithredu cynllun parhad busnes i sicrhau y gellir ailafael yn brydlon yn y gweithgareddau hanfodol.  Dylai diogelwch gwybodaeth fod yn rhan annatod o'r broses parhad busnes a phrosesau rheoli eraill o fewn y sefydliad.

Dylai rheoli parhad busnes hefyd gynnwys mesurau i nodi a gostwng risgiau, yn ogystal â'r broses gyffredinol ar gyfer asesu risgiau, gan gyfyngu ar ganlyniadau digwyddiadau niweidiol a sicrhau bod gwybodaeth sydd raid wrthi ar gyfer prosesau busnes ar gael yn rhwydd.

Yr amcanion a'r prif risgiau a gafodd sylw fel rhan o'r archwiliad hwn oedd:

| | |
|---|---|
| Amcanion: | Sicrhau bod modd cynnal parhad gwasanaethau neu adfer gwasanaethau'n brydlon ar ôl trychineb.<br><br>Bod y Cyngor yn adfer gwasanaethau a systemau hanfodol mewn dull amserol os cyfyd trychineb. |
| Risgiau: | • Nad yw'r risg o drychineb wedi ei gostwng i'r eithaf a bod oedi diangen o ran adferiad prydlon ar ôl trychineb.<br>• Bod cynlluniau adfer ar ôl trychineb yn aneffeithiol ac yn anymarferol.<br>• Colli data neu data ddim ar gael oherwydd amhariadau neu fethiannau mawr mewn systemau TG. |

## 1.2 CASGLIAD




Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all y Cyngor fod â sicrwydd bod y mesurau rheoli y mae'n dibynnu arnynt i reoli'r maes hwn wedi eu dylunio'n addas, eu gweithredu'n gyson na'n effeithiol.

Mae angen cymryd camau i sicrhau bod modd rheoli risgiau yn y maes hwn.

Mae'r casgliadau uchod sy'n bwydo i mewn i'r lefel sicrwydd gyffredinol yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Y casgliadau allweddol o'r adolygiad hwn yw:

**Dyluniad y fframwaith rheoli**

- Nid oes gan y Cyngor gynllun parhad busnes cymeradwy, ffurfiol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil 2004;
- Nid oes gan y Cyngor Gynllun TGCh Adfer Ôl-trychineb fel sy'n ofynnol dan ISO 27002;
- Fel y bwriadwyd, dylai'r Cyngor symud tuag at sefydlu parhad busnes ac i ffwrdd o adfer ar ôl trychineb trwy adolygu'r defnydd o dapiau fel y cyfrwng wrth gefn ar gyfer y serfwyr cyllid yn hytrach na threfniadau wrth gefn SAN i SAN;
- Nid oes gan y Cyngor gyfleuster penodol ar gyfer adfer ar ôl trychineb i ffwrdd o'r ystafelloedd TGCh;
- Nid oes gan y Cyngor generadur a fyddai'n golygu y gellid parhau i gyflenwi pŵer i'r ystafelloedd TGCh yn achos trychineb;

**Gweithredu'r fframwaith rheoli a chydymffurfio ag ef**

- Mae angen i wasanaethau gwblhau ffurflenni dadansoddi effaith ar fusnes a hysbysu swyddogion o'r blaenoriaethau ar gyfer adfer systemau hanfodol yn brydlon yn dilyn trychineb; dylid sicrhau wedyn bod y Cynllun Parhad Busnes Strategol yn gyfredol trwy ychwanegu data dadansoddi newydd.

## 1.3 SGÔP YR ADOLYGIAD

Adolygu digonolrwydd y trefniadau rheoli risg a rheolaeth o fewn y system a sefydlu i ba raddau y mae mesurau rheoli wedi eu gweithredu, gyda golwg ar ddarparu barn. Sefydlir gweithgareddau rheoli i sicrhau bod risgiau i amcanion y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol. Wrth gynllunio'r archwiliad, cytunwyd ar y cyfyngiadau isod:

**Cyfyngiadau i sgôp yr archwiliad:**

- Bydd yr archwiliad yn ymwneud â threfniadau rheoli ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer TGCh ar ôl Trychineb.
- Byddwn yn cynnal asesiad o ddigonolrwydd agweddau penodol ar y fframwaith rheoli a byddwn yn gwneud gwaith profi cyfyngedig i gadarnhau ei weithrediad yn ymarferol.
- Nid yw ein gwaith yn rhoi unrhyw sicrwydd yn erbyn camgymeriadau, colled neu dwyll o bwys nac yn rhoi sicrwydd absoliwt nad yw camgymeriadau, colled neu dwyll o bwys yn bodoli.

Ar gyfer yr archwiliad hwn mabwysiadwyd dull Archwiliad sy'n seiliedig ar Risg.